# Cafcass Cymru a Safe & Together

(Awst 2024)

Mae gan Cafcass Cymru ymrwymiad diwyro i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd sy'n oroeswyr/dioddefwyr cam-drin domestig, drwy ymarfer gwaith cymdeithasol medrus ac sy'n ystyriol o drawma mewn perthynas â cham-drin domestig. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae Cafcass Cymru wedi comisiynu The Safe & Together Institute i ddarparu hyfforddiant i bob un o'n hymarferwyr gwaith cymdeithasol a'n rheolwyr ledled Cymru. Mae Model Safe & Together wedi'i gymeradwyo gan swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a Phrif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru.

## Beth yw Model Safe & Together?

- Nod Model Safe & Together yw creu systemau a newid i ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cadw plant yn ddiogel ac yn eu cadw gyda'r rhiant amddiffynnol. Caiff effeithiolrwydd y Model ei fesur drwy ystyried i ba raddau y mae asiantaethau sy'n ystyriol o gam-drin domestig yn sicrhau bod hyn yn digwydd mor aml â phosibl.
- Mae Model Safe & Together yn llenwi'r bylchau mewn gwybodaeth ac ymarfer ac yn helpu pob system sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a llesiant plant i ddod yn systemau sy'n ystyriol o gam-drin domestig, gan ar yr un pryd roi blaenoriaeth i bob partner yn y gymuned cam-drin domestig.
- Mae Model Safe & Together yn cynnig dull sy'n seiliedig ar batrymau cyflawnwyr, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac ar gryfderau goroeswyr o weithio ym maes cam-drin domestig.
- Yn gyffredinol, mae'r model yn anelu at ymdrin ag arferion domestig dinistriol drwy ddarparu cyfres o egwyddorion ac elfennau a all arwain ymarfer sy'n ystyriol o gam-drin domestig. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Cadw'r plentyn yn ddiogel a'i gadw gyda'r rhiant nad yw wedi troseddu, os yw'n ddiogel gwneud hynny.
  - Gweithio mewn partneriaeth (sy'n golygu deall cryfderau a nodi elfennau cadarnhaol dulliau magu plant amddiffynnol) â'r rhiant nad yw wedi troseddu fel y sefyllfa ddiofyn.
  - Cynnal ymyriadau gyda'r cyflawnwr er mwyn lleihau risg a niwed i'r plentyn.

## Sut y bydd hyn yn effeithio ar waith ymarferwyr Cafcass Cymru?

- Un o themâu allweddol Model Safe & Together yw newid yr iaith sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr er mwyn sicrhau bod y rhiant nad yw'n cam-drin yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi ac nad yw'n cael ei drin fel dioddefwr eto.
- Mae'r dull gweithredu yn cynnig iaith gyffredin a chyfres o adnoddau safonol, gan ganolbwyntio ar ymddygiad y cyflawnwr a chryfderau'r rhiant nad yw'n cyflawni, gyda ffocws clir ar yr effaith ar y plentyn.

- Cefnogir hyn gan gyfres o adnoddau ac ymyriadau a gydnabyddir yn rhyngwladol a gynlluniwyd i helpu gweithwyr lles plant proffesiynol i fod yn ystyriol o gam-drin domestig, a bydd y dull yn ailffocysu ac yn atgyfnerthu'r ffordd y mae ymarferwyr yn gweithio gyda theuluoedd y mae ymddygiad cyflawnwyr cam-drin domestig wedi effeithio arnynt.
- Bydd adroddiadau i lysoedd yn cynnwys "iaith sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr", sy'n nodi ymddygiad y cyflawnwr yn glir ac yn rhoi gwybod i'r llys am yr effaith ar y plentyn a'r rhiant nad yw'n cyflawni.
- Mae Cafcass Cymru yn gadarn o blaid y ffordd y mae'r model yn ategu asesiadau risg cadarn ac yn nodi effaith ymddygiad y cyflawnwr yn glir. O ganlyniad, bydd adroddiadau ac argymhellion i'r llysoedd yn gliriach ac yn fwy cadarn, gan arwain at ganlyniadau mwy diogel i blant.

## Adborth o'n profiad o'r Model hyd yn hyn...

*"…rwyf wedi cymryd agweddau ar Fodel Safe & Together ac yn ceisio eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'm hymarfer. Pethau fel newid y semanteg rwy'n ei defnyddio, teimlo'n fwy hyderus wrth nodi a labelu patrymau ymddygiad cyflawnwyr, gan gysylltu'r holl elfennau hyn â'r effaith ar ecoleg y plentyn a'r goroeswr ac ati. Mae fy hyder wrth ddadlau yn erbyn y farn fod cyswllt yn rhywbeth y gellir ei ddisgwyl ac y mae hawl iddo yn gwella hefyd. Mae mwy i'w wneud o hyd, ond mae'n galonogol gweld bod Cafcass Cymru yn ei gyflwyno i'r sefydliad cyfan…"*

Cynghorydd y Llys Teulu – De-orllewin Cymru

*"…Roedd cael adroddiad mor glir a oedd yn cynnwys dadansoddiad cystal a map llwybr clir i'r argymhellion yn golygu ei bod hi'n hawdd ei dderbyn a llwyddwyd i sicrhau proses gyfryngu briodol yn y llys a arweiniodd at gytundeb…"*

Barnwr Rhanbarth – De-ddwyrain Cymru

## Y Dyfodol...

Mae Cafcass Cymru yn croesawu'r cyfle i roi Model Safe & Together ar waith fel rhan o'n hymarfer a'r ffordd y gall lywio ein gwaith er mwyn cyflawni canlyniadau diogel i blant ac i'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw. Credwn ei fod yn newid arwyddocaol i'n ffordd o weithio gydag oedolion a phlant sydd wedi goroesi cam-drin domestig a'i fod yn arwydd o'n hymrwymiad i wrando ar oroeswyr ac i weithredu.